Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adran 12 Atodiad: Dyfarnu Costau

## Llawlyfr Rheoli Datblygu

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51664, ISBN digidol 978-1-83715-686-3

**Llawlyfr Rheoli Datblygu**

## Adran 12 Atodiad

# Dyfarnu Costau


| Adran | Is-adran |
|---|---|
| 1.0 Cyflwyniad, diben a chwmpas | |
| | Pŵer i ddyfarnu costau |
| | Achosion y mae costau'n gymwys iddynt |
| | Gweithdrefn achosion |
| | Pam y dyfernir costau |
| 2.0 Amgylchiadau dyfarnu costau | |
| | Y prif feini prawf |
| | Ystyr 'treuliau diangen neu wastraffus' |
| | Mathau o ddyfarniadau costau |
| | Partïon a all fod yn destun dyfarniad costau |
| | Sut y caiff costau eu dyfarnu a phennu'r swm sy'n daladwy |
| | Dim taliad |
| | Dyfarniad costau llawn |
| | Dyfarniad costau rhannol |
| 3.0 Ymddygiad a allai arwain at ddyfarniad costau yn erbyn partïon apêl | |
| | Ymddygiad 'afresymol' |
| | Enghreifftiau o ymddygiad afresymol |
| | Apelyddion neu ymgeiswyr |
| | Awdurdod cynllunio lleol |
| | Partïon â buddiant (gan gynnwys ymgyngoreion statudol) |
| 4.0 Costau o ran prynu gorfodol a gorchmynion tebyg | |
| | Gorchmynion sy'n debyg i orchmynion prynu gorfodol |
| | Dyfarniad costau ar gyfer prynu gorfodol a gorchmynion tebyg |
| | Gweithdrefnau dyfarnu costau ar gyfer prynu gorfodol a gorchmynion tebyg |
| | Ymddygiad afresymol |
| | Gwrthwynebwyr rhannol lwyddiannus |

[Amgylchiadau pan fo gorchymyn prynu gorfodol neu orchymyn tebyg yn]

**Atodlen**
[Atodlen A – Proses dyfarniadau]
Gweithdrefn gyffredinol
Ceisiadau sy'n codi o ymddygiad afresymol yn ystod achos
A gychwynnir gan Arolygwyr
Gweithdrefn yn sgil tynnu apêl neu gais yn ôl
[Atodlen B – Ble i gyflwyno cais]

---

## 1.0 Cyflwyniad, diben a chwmpas

1.1 Mae'r atodiad hwn yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ac yn rhoi arweiniad ar ddyfarnu costau ar gyfer apeliadau gysylltiedig â chynllunio a cheisiadau cyn Gweinidogion Cymru.

1.2 Disgwylir i bartïon ysgwyddo eu costau eu hunain. Ni ddyfernir costau i apelydd neu ymgeisydd dim ond oherwydd bod ei apêl neu ei gais yn llwyddiannus ac, yn yr un modd, ni ddyfernir costau i awdurdod cynllunio lleol oherwydd bod ei safbwynt neu ei benderfyniad wedi'i gymeradwyo. Ceir dyfarnu costau dim ond pan fo un o'r partïon wedi ymddwyn yn afresymol a bod hynny wedi arwain at dreuliau diangen neu wastraffus i'r parti arall. Pan wneir dyfarniad costau, mae'n ofynnol i un parti dalu costau'r parti arall (yn llawn neu'n rhannol) sy'n ddyledus o ganlyniad i achos pan wnaed penderfyniad gan Weinidogion Cymru, neu Arolygydd Cynllunio sy'n gweithio ar eu rhan. Gall hyn fod yn gais, yn apêl neu'n atgyfeiriad (ceir rhestr o achosion ym mharagraff 1.5). Gellir ymdrin ag achosion drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymholiad (neu unrhyw gyfuniad o'r tri dull hwn). Mater i Weinidogion Cymru neu'r Arolygydd Cynllunio fydd penderfynu a gafwyd ymddygiad afresymol, ac os felly, a arweiniodd hynny at dreuliau diangen neu wastraffus.

1.3 Dyfernir costau trwy orchymyn, sy'n nodi graddau'r costau y caiff y parti ei hadennill gan y parti y dyfarnwyd yn ei erbyn. Ni fydd gorchymyn costau yn pennu'r union swm, a fydd yn parhau yn amodol ar setliad rhwng y partïon.

### Pŵer i ddyfarnu costau

1.4 Mae Adran 322C (Costau: Cymru) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn berthnasol i unrhyw gais, apêl neu atgyfeiriad i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 p'un a yw'n cael ei ystyried trwy ymholiad, gwrandawiad neu ar sail sylwadau ysgrifenedig. Mae Adran 322C(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud

cyfarwyddiadau o ran y costau sy’n dod i’w rhan nhw (neu’r rhai sy’n gweithredu ar eu rhan, megis Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)) (gan gynnwys costau staff cyffredinol a gorbenion) mewn cysylltiad â chais, apêl neu atgyfeiriad a’r person(au) a fydd yn talu’r costau hynny. Mae Adran 322C(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion o ran costau’r ymgeisydd, apelydd neu unrhyw un arall sy’n gysylltiedig â’r cais, apêl neu atgyfeiriad a’r person(au) a fydd yn talu’r costau hynny. Mae darpariaethau tebyg hefyd ar gael yn adrannau 180 a 181 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

1.5 Mae Adran 322C(5) o Ddeddf 1990 ac adran 180(4) o Ddeddf 2023 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ragnodi swm dyddiol safonol ar gyfer y costau. Fodd bynnag, ni ragnodwyd swm dyddiol hyd yn hyn.

**Achosion y mae costau’n gymwys iddynt**

1.6 Mae Adran 322C (Costau: Cymru) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn berthnasol i achosion a nodir ym mharagraff 1.3 uchod. Mae Adran 322C hefyd yn berthnasol i achosion penodol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Yn hyn o beth, mae Adran 322C yn berthnasol i achosion sy’n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Gynllunio ac apeliadau cysylltiedig[1];
- Gorfodi ac apeliadau cysylltiedig[2];
- Ceisiadau a alwyd i mewn[3];
- Ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a chydsyniadau eilaidd cysylltiedig[4];
- Gwrthwynebiadau i orchmynion dileu a dargyfeirio llwybrau cyhoeddus[5];
- Apeliadau sy’n gysylltiedig â chydsyniadau o ran Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig[6];
- Apeliadau yn erbyn hysbysiadau rheoli[7]; a
- Gwrthwynebiadau i orchmynion sy’n addasu’r map a’r datganiad diffiniedig[8].

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw Adran 322C yn berthnasol i gais, apêl neu atgyfeiriad a wnaed i Weinidogion Cymru cyn 1 Mawrth 2016[9].

---

[1] Pob apêl a ddaw o dan ac a gymhwysir gan A.78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, A.100 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, A.21 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, A.195 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
[2] A.174, A.208 ac A.217 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, A.127 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, A.25 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.
[3] A.77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, A.94 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, A.20 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.
4 A.62D ac A.62F o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
5 A.121(5A) o Ddeddf Priffyrdd 1980.
6 A.28F o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
7 A.28L o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
8 Paragraff 10A o Atodlen 15 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
9 Mae Erthyglau 2(b), 4, 16 a 17 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 Gorchymyn (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2016 yn darparu gwybodaeth fanwl am y gorchymyn cychwyn a’r darpariaethau trosiannol sy’n gysylltiedig ag adran 322C.

**Gweithdrefn achosion**

1.7 Mae'r dull o bennu achosion yn aml yn dibynnu ar gymhlethdod y materion cynllunio dan sylw. Gall hyn fod ar ffurf y gweithdrefnau canlynol:

- Sylwadau ysgrifenedig;
- Gwrandawiad; neu
- Ymholiad.

1.8 Gall Gweinidogion Cymru, neu'r Arolygydd Cynllunio sy'n gweithio ar eu rhan, benderfynu ar gyfuniad o'r dulliau uchod wrth bennu gweithdrefnau. Pan ddefnyddir cyfuniad o ddulliau, cyfeirir atynt fel achosion cyfunol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gofynnir am ddarparu rhywfaint o'r wybodaeth yn ysgrifenedig, ond cynhelir gwrandawiad neu ymholiad i ystyried materion mwy cymhleth. Cyfyngid ar y defnydd o ymholiadau yn unig i'r materion hynny yr ystyrir bod y weithdrefn hon yn briodol ac yn angenrheidiol ar eu cyfer, yn ôl meini prawf cyhoeddedig.

**Pam y dyfernir costau**

1.9 Disgwylir i bob parti sy'n rhan o'r achosion a restrir ym mharagraff 1.5 ymddwyn yn rhesymol i gefnogi proses effeithlon ac amserol. Fel rheol, mae'n rhaid i bartïon dalu eu costau eu hunain. Fodd bynnag, pan ystyrir bod un parti wedi ymddwyn yn afresymol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a bod hyn wedi achosi 'treuliau diangen neu wastraffus' i barti arall (gweler paragraffau 2.2 – 2.5) yn y broses apêl neu wneud cais, mae'n bosibl y byddant yn destun dyfarniad costau.

1.10 Wrth i bartïon allu cael dyfarniad costau, y nod yw:

- Annog pawb sy'n rhan o'r broses i ymddwyn mewn modd rhesymol, rhoi ymdeimlad gwell o ddisgyblaeth a dilyn arfer da o ran prydlondeb ac wrth gyflwyno tystiolaeth lawn a manwl i gefnogi eu hachos
- Annog awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli datblygiadau yn gywir, i ddibynnu'n unig ar resymau dros wrthod sy'n gwrthsefyll prosesau craffu ar rinweddau cynllunio'r achos, ac i beidio ag ychwanegu at gostau datblygu trwy oedi y gellir ei osgoi;
- Peidio ag atal pobl rhag ymarfer eu hawl statudol i apêl.

## 2.0 Amgylchiadau pan geir dyfarnu costau

**Y prif feini prawf**

2.1 Bydd costau yn cael eu dyfarnu pan fo:

- Parti wedi ymddwyn yn afresymol[10;]
- Yr ymddygiad afresymol wedi achosi'n uniongyrchol dreuliau diangen neu wastraffus i barti arall[11.]

[10] Ceir diffiniad ac enghreifftiau o ymddygiad afresymol yn adran 3 y canllawiau hyn.
[11] Ceir diffiniad o gostau diangen neu wastraffus ym mharagraffau 2.2-2.5

## Ystyr ‘treuliau diangen neu wastraffus’

2.2 Yn ystod achos, bydd partïon yn cyflawni gwariant trwy lunio’r datganiadau angenrheidiol, ymgysylltu â chyngor arbenigol ac ymddangos mewn gwrandawiad neu ymholiad (pan fo’n berthnasol).

2.3 Disgwylir i bartïon dalu eu costau eu hunain wrth gymryd rhan mewn achos. Fodd bynnag, gall costau mawr fod yn wastraffus, neu yn ddiangen yn y pendraw, wrth i bartïon baratoi ar gyfer achos, pan fydd ymddygiad afresymol yn digwydd. Gallai hyn fod yn dreuliau yr apêl neu’r cais cyfan, neu ran o’r broses yn unig.

2.4 Mae’n rhaid i geisiadau am gostau ddangos yn glir sut y mae ymddygiad afresymol wedi arwain at dreuliau diangen neu wastraffus.

2.5 Mae enghreifftiau o’r hyn a ystyrir yn ‘ymddygiad afresymol’ wedi’u cynnwys yn adran 3 y canllawiau hyn.

## Mathau o ddyfarniadau costau

2.6 Gall dyfarniadau costau fod am ddau fath o ymddygiad:

2.7 Ceir hawlio dyfarniadau **gweithdrefnol** am ymddygiad afresymol sy’n digwydd yn ystod achos sydd wedi peri treuliau diangen neu wastraffus. Cyflwynir dyfarniad o’r fath pan fydd parti wedi amharu ar y broses neu ohirio’r broses o benderfynu ar gais, apêl neu broses galw i mewn yn ystod yr achos.

2.8 Ceir hawlio dyfarniadau **sylweddol** pan fo’r ymddygiad afresymol yn ymwneud â materion rhinwedd yr apêl neu’r cais, a bod hyn wedi achosi treuliau diangen neu wastraffus. O dan yr amgylchiadau hyn, ni cheir hawlio costau am y cyfnod pan wneir penderfyniad ar gais sydd wedi arwain at yr achos. Yn y sefyllfa hon, ceir ystyried ymddygiad a chamau ar adeg y cais, wrth benderfynu a ddylid dyfarnu costau ai peidio.

2.9 Ceir hawlio costau am y cyfnod cyn dechrau’r achos. Fodd bynnag, mae’n rhaid i’r costau hynny ymwneud yn uniongyrchol â’r achos, megis paratoi ar gyfer yr achos. Ni cheir dyfarnu costau am golledion anuniongyrchol, megis gohirio’r caniatâd cynllunio.

2.10 Ni fydd y ffaith y gwnaed cais ar wahân am gostau yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw benderfyniad ar yr achos. Mae penderfynu ar gais am gostau yn broses ar wahân.

## Partïon a all fod yn destun dyfarniad costau

2.11 Gellir dyfarnu costau i, neu yn erbyn, unrhyw barti sydd wedi cymryd rhan mewn achos. Gall y rhain gynnwys awdurdodau cynllunio lleol (neu gorff perthnasol arall), apelyddion a thrydydd partïon, gan gynnwys ymgyngoreion statudol. Fel rheol, gwneir costau o blaid neu yn erbyn trydydd partïon o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, er enghraifft, yn dilyn gohiriad yn sgil ymddygiad afresymol. Ceir hefyd dyfarnu costau i Weinidogion Cymru (gan gynnwys y rhai sy’n gweithio ar eu rhan) pan ysgwyddir treuliau diangen ar eu rhan.

### Sut y caiff costau eu dyfarnu a phennu'r swm sy'n daladwy

2.12 Mae Gweinidogion Cymru (neu'r rhai sy'n gweithio ar eu rhan) yn defnyddio pwerau, a nodir ym mharagraffau 1.3-1.4, i ddyfarnu costau pan fydd ymddygiad afresymol wedi digwydd. Caiff unrhyw barti sydd wedi cymryd rhan mewn achos wneud cais ysgrifenedig am gostau cyn gynted ag y bydd y penderfyniad ar y cais neu'r apêl yn nwylo PEDW.

2.13 Pan fo parti yn ceisio dyfarniad sylweddol, mae'n rhaid gwneud y cais am gostau yr un pryd â chyflwyno'i datganiad achos ysgrifenedig llawn. Pan na wneir cais ysgrifenedig ar y cam hwn, mae'n rhaid i'r cais am gostau gynnwys datganiad sy'n esbonio pam nad oedd modd gwneud cais yr un pryd â chyflwyno datganiad achos llawn, neu cyn dyddiad cau cyflwyno'r datganiad.

2.14 Ar gyfer achos sy'n cael ei bennu trwy wrandawiad neu ymholiad, cydnabyddir y gall parti wneud cais am ddyfarniad ar ôl profi'r dystiolaeth yn y digwyddiad. Mae'n rhaid i'r cais nodi, â rheswm da, pam y mae'r cais yn cael ei wneud yn hwyrach na'r disgwyl, neu y mae'n debygol o gael ei wrthod gan Weinidogion Cymru (neu'r rhai sy'n gweithio ar eu rhan). Fel rheol, bydd cais hwyrach am gostau yn cael ei dderbyn pan fydd yr ymddygiad afresymol yn ymwneud â mater gweithdrefnol a ddigwyddodd yn ystod yr achos.

2.15 Arolygwyr Cynllunio sy'n penderfynu ar y rhan fwyaf o achosion dyfarniadau costau. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru ymdrin â rhai achosion, megis y rhai a gychwynnir yn sgil tynnu apêl neu gais yn ôl neu ar ôl i apêl neu gais ddod i ben neu pan fo PEDW yn cyflwyno dyfarniad costau i Weinidogion Cymru. Wrth benderfynu a ddylid gwneud dyfarniad ai peidio, bydd Gweinidogion Cymru (neu'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n gweithredu ar eu rhan) yn ystyried yr holl dystiolaeth, ynghyd ag unrhyw amgylchiadau arbennig.

2.16 Gall yr Arolygydd Cynllunio ymdrin yn unig â'r egwyddor ynghylch a ddylid dyfarnu costau llawn neu rannol. Caiff y swm terfynol ei setlo rhwng y partïon.

2.17 Pan ddyfernir costau i barti, dylid anfon manylion y costau i'r parti arall a cheisio cyrraedd cytundeb ar y swm. Pan ddyfernir costau yn erbyn parti ac ni all y partïon gytuno ar swm, caiff y parti llwyddiannus wneud cais i Swyddfa Costau yr Uwchlys.

2.18 Mae'r broses lawn i'w chynnal am ddyfarniadau costau i'w gweld yn Atodlen A.

### Dim taliad

2.19 Pan fydd Gweinidogion Cymru (neu'r Arolygydd Cynllunio sy'n gweithredu ar eu rhan) wedi dyfarnu costau, nid oes rhan ganddynt swyddogaeth bellach yn yr achos. Mae methu â setlo dyfarniad costau yn orfodadwy trwy'r llysoedd ar ffurf dyled sifil. Dylai'r partïon geisio cyngor cyfreithiol os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â sut i barhau.

### Dyfarniad costau llawn

2.20 Mae dyfarniad costau llawn yn gymwys i holl gostau'r parti, gan ddechrau o'r dyddiad pan fo'r ymgeisydd yn dechrau ysgwyddo costau mewn cysylltiad â gweithdrefn cais neu apêl. Gall hyn gynnwys paratoi datganiadau achos a dogfennaeth gefnogi, a threuliau gwneud cais am gostau (pan fo'n berthnasol).

### Dyfarniad costau rhannol

2.21 Nid yw rhai achosion yn cyfiawnhau dyfarniad costau llawn. Dan yr amgylchiadau hyn, ceir cyflwyno dyfarniad rhannol. Er enghraifft, os yw awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod cais am ganiatâd cynllunio ac nid yw un o'r rhesymau dros wrthod wedi'i gefnogi'n gywir, ond cynhyrchwyd tystiolaeth bwysig i gefnogi'r rhesymau eraill. Gall dyfarniad rhannol fod yn gymwys pan achosir gohirio diangen i wrandawiad, neu ymholiad i fater penodol.

## 3.0 Ymddygiad a all arwain at ddyfarniad costau yn erbyn partïon apêl

### Ymddygiad 'afresymol'

3.1 Defnyddir y gair "afresymol" yn ei ystyr arferol, fel yr adlewyrchir yn arfarniad yr Uchel Lys yn achos Cyngor Dinas Manceinion yn erbyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd a Mercury Communications Limited [1988] J.P.L. 774.

3.2 Nodir ymddygiad afresymol mewn dau gategori:

- Gweithdrefnol (yn ymwneud â'r broses); a
- Sylweddol (yn ymwneud â materion sylweddol sy'n codi yn rhinwedd yr apêl neu'r cais).

### Enghreifftiau o ymddygiad afresymol

3.3 Nodir isod restr o enghreifftiau o ymddygiad afresymol gweithdrefnol a sylweddol a allai arwain at ddyfarniad costau. Bydd yr amgylchiadau a all arwain at ymddygiad afresymol yn wahanol ym mhob achos. Yn unol â hyn, ni fydd rhai enghreifftiau o ymddygiad afresymol yn arwain at ddyfarniad costau ym mhob achos. Bydd Gweinidogion Cymru yn asesu a oes 'treuliau diangen neu wastraffus' (gweler paragraffau 2.2 – 2.5) wedi codi cyn dyfarnu costau.

3.4 Mae nifer o'r enghreifftiau isod yn ymwneud â thynnu'n ôl yn hwyr (neu, pan fo'n berthnasol, gyflwyniad hwyr) yn achos apêl, cais, rheswm dros wrthod, amod neu dystiolaeth. Dan amgylchiadau o'r fath, pan fo parti yn penderfynu dilyn y cam hwnnw, mae'n well gwneud hynny cyn gynted â phosibl, oherwydd gall tynnu'n ôl yn hwyr, cyflwyno'n hwyr neu beidio â thynnu'n ôl arwain at ddyfarniad costau uwch.

**Apelyddion neu ymgeiswyr:**

3.5 Mae'n ofynnol i apelyddion neu ymgeiswyr ymddwyn yn rhesymol mewn materion gweithdrefnol, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion a therfynau amser a nodir gan Weinidogion Cymru neu'r Arolygydd Cynllunio yn y broses benderfynu.

3.6 Mae enghreifftiau o ymddygiad afresymol a all arwain at ddyfarniad costau yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

**Gweithdrefnol:**
(a) Cyflwyno seiliau newydd dros apêl, tystiolaeth newydd, neu wybodaeth berthnasol yn hwyr yn yr achos pan fo'n amlwg y gellid fod wedi'u cyflwyno yn gynharach yn y broses neu gallent fod wedi eu celu'n fwriadol;
(b) Cyflwyno gwybodaeth berthnasol dim ond pan ofynnir amdani yn ystod yr achos, ond heb ei chyflwyno wrth wneud y cais (pan fo'n berthnasol);
(c) Gohirio neu wrthod darparu gwybodaeth y gofynnir amdani gan Weinidogion Cymru neu'r Arolygydd Cynllunio;
(ch) Methu â darparu datganiad achos llawn digonol pan fo'n ofynnol gwneud hynny (h.y. cyflwyniad aneglur o'r ffeithiau neu'r dadleuon) sy'n arwain at oedi neu ohirio diangen;
(d) Diffyg cydweithredu â pharti arall neu bartïon eraill wrth ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi apêl neu sail apêl neu wrth drafod y cais neu'r apêl;
(dd) Amharodrwydd neu ddiffyg cyfathrebu wrth ymateb i hysbysiadau tramgwydd cynllunio;
(e) Darparu gwybodaeth neu dystiolaeth gan wybod ei bod yn anghywir neu'n anwir;
(f) Methu â chydymffurfio â therfynau amser statudol neu ofynion gweithdrefnol ar gyfer achos;
(ff) Methu â bod yn bresennol (neu gael cynrychiolaeth), heb reswm da, mewn ymweliad â safle, gwrandawiad neu ymholiad, pan fo angen; a/neu
(g) Tynnu apêl yn ôl heb reswm da, megis pan nad oes newid o bwys i'r amgylchiadau.

3.7 Mae apelyddion neu ymgeiswyr mewn perygl o gael dyfarniad costau yn eu herbyn os nad oes disgwyliad rhesymol iddo lwyddo. Byddai dyfarniadau sylweddol sy'n ymwneud â phroses galw i mewn neu gais uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud dan amgylchiadau eithriadol yn unig, oherwydd nad yw sylwedd yr achos wedi'i brofi hyd yn hyn. Nid rhestr gynhwysfawr yw hon, ond gallai dyfarniadau sylweddol ddigwydd:

**Sylweddol:**
(a) Pan fo'n amlwg nad yw'r datblygiad y mae apêl yn ymwneud ag ef yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu a/neu nid oes llawer o ddisgwyl iddo lwyddo, ac ni chyflwynir ystyriaethau eraill o bwys, megis polisi cynllunio cenedlaethol, sy'n dangos y dylid bod wedi penderfynu fel arall, neu, pan gyflwynir ystyriaethau eraill o bwys, bod diffyg tystiolaeth gefnogi;
(b) Pan fo'r apêl neu'r cais yn dilyn penderfyniad diweddar ar apêl sy'n ymwneud â'r un datblygiad, neu ddatblygiad tebyg iawn, ar yr un safle, neu yr un safle o ran sylwedd, lle penderfynodd Gweinidogion Cymru neu Arolygydd Cynllunio sy'n gweithredu ar eu rhan, fod y cynnig yn annerbyniol ac na fu newid o bwys i'r amgylchiadau yn y cyfamser;

(c) Pan fo'r ymgeisydd neu'r apelydd, heb reswm da na chyfiawnhad, wedi methu â chadw cyngor a roddwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru fel rhan o wasanaethau cyn gwneud cais, pan fyddai'r cyngor hwnnw wedi arwain at osgoi apêl neu ystyriaeth o'r materion hynny gan Weinidogion Cymru fel rhan o'r cais, neu leihau'r materion hynny sy'n cael eu hystyried yn rhan o apêl neu gais;

(ch) Weithiau, mae'n amlwg o benderfyniad diweddar ar apêl sy'n ymwneud â'r un datblygiad, neu ddatblygiad tebyg iawn, ar yr un safle, neu yr un safle yn sylweddol, na ddylid caniatáu'r datblygiad hwnnw. Mae perygl y bydd yr apelydd yn cael dyfarniad costau yn ei erbyn os yw'n parhau ag apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi ar y sail y dylid gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad dan sylw; a/neu

(d) Mae diffyg cydweithredu o ran unrhyw ymrwymiad cynllunio rhesymol.

**Awdurdod Cynllunio Lleol:**

3.8 Pan fo awdurdodau cynllunio lleol, wrth arfer eu dyletswyddau, wedi gweithredu mewn modd rhesymol, ni ddylid dyfarnu costau yn eu herbyn. Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymddwyn yn rhesymol o ran materion gweithdrefnol apêl neu gais, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion a therfynau amser y broses. Pan fo awdurdod cynllunio lleol wedi gwrthod, neu gynnig gwrthod, cais nad yw'n unol â pholisi cynllun datblygu perthnasol[12] ac nad oes ystyriaethau o bwys yn nodi y dylid fod wedi rhoi'r caniatâd[13], fel rheol, ni ddylai fod unrhyw sail i ddyfarnu costau yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol am wrthod cais yn afresymol.

3.9 Nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn rhwym i fabwysiadu, neu gynnwys yn rhan o'u hachos, y cyngor proffesiynol neu dechnegol a roddwyd gan eu swyddogion eu hunain neu a gafwyd gan ymgyngoreion statudol. Fodd bynnag, mae disgwyl iddynt ddangos bod ganddynt seiliau cynllunio rhesymol dros benderfynu yn groes i'r cyngor hwnnw a'u bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth berthnasol i gefnogi eu penderfyniad. Os ydynt yn methu â gwneud hynny, mae'n bosibl y caiff costau eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod.

3.10 Mae enghreifftiau o ymddygiad afresymol a allai arwain at ddyfarniad costau yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

**Gweithdrefnol:**

(a) Diffyg cydweithredu â pharti arall trwy wrthod darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani neu ofyn am wybodaeth ychwanegol;

(b) Celu tystiolaeth berthnasol yn fwriadol naill ai yn rhan o'i benderfyniad ar gais cynllunio, neu mewn apêl ddilynol neu broses galw i mewn;

(c) Methu â phenderfynu ar gais o fewn terfynau amser statudol, pan fo'n amlwg nad oedd rheswm sylweddol dros gyfiawnhau gohirio penderfyniad y cais;

(ch) Methu â hysbysu'r cyhoedd o'r terfynau amser perthnasol i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, neu ddyddiad gwrandawiad neu ymholiad mewn modd amserol, pan fo hyn yn arwain at oedi;

[12] A.70(2)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Datblygu Strategol a Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru.

[13] A.70(2)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(d) Cyflwyno’r wybodaeth berthnasol dim ond pan ofynnir amdani yn ystod yr achos, ond peidio â’i chyflwyno ar y cam gwneud cais (pan fo’n berthnasol);
(dd) Methu â darparu datganiad achos llawn digonol pan fo hynny yn ofyniad (h.y. cyflwyniad aneglur o ffeithiau neu ddadleuon), sy’n arwain at oedi neu ohirio achos yn ddiangen;
(e) Darparu gwybodaeth neu dystiolaeth gan wybod ei bod yn anghywir neu’n anwir;
(f) Gwrthod cydweithredu wrth setlo ffeithiau y cytunwyd arnynt, neu ddarparu gwybodaeth berthnasol, sy’n arwain at oedi neu ohirio’r achos yn ddiangen;
(ff) Oedi neu wrthod darparu gwybodaeth y gofynnir amdani gan Weinidogion Cymru neu Arolygydd Cynllunio;
(g) Cyflwyno tystiolaeth newydd / sylweddol neu wybodaeth berthnasol yn hwyr yn yr achos pan fo’n eglur y gellid fod wedi’i chyflwyno yn gynharach yn y broses neu wrth gyflwyno’r cais;
(ng) Methu â chydymffurfio â therfynau amser statudol neu ofynion gweithdrefnol ar gyfer yr achos;
(h) Methu â bod yn bresennol (neu gael cynrychiolaeth), heb reswm da, mewn ymweliad â safle, gwrandawiad neu ymholiad pan fo angen;
(i) Tynnu yn ôl unrhyw reswm dros wrthod, rheswm dros gyflwyno hysbysiad gorfodi, tynnu hysbysiad gorfodi yn ôl yn llawn heb reswm da; a/neu
(j) Cyflwyno rheswm newydd, neu reswm arfaethedig, dros wrthod, gan arwain at ohirio’r broses.

3.11 Mae awdurdodau cynllunio lleol mewn perygl o gael dyfarniad costau yn eu herbyn os ydynt yn ymddwyn yn afresymol o ran sylwedd y mater sy’n destun apêl neu broses galw i mewn neu gais uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

**Sylweddol:**
(a) Atal neu ohirio datblygiad y mae’n amlwg y dylid ei ganiatáu, o ystyried ei gydymffurfiad â’r cynllun datblygu, polisi cenedlaethol ac unrhyw ystyriaethau eraill o bwys;
(b) Methu â chyflwyno tystiolaeth i gefnogi effaith y cynnig, neu bob rheswm, neu reswm arfaethedig dros wrthod (h.y. penderfynu yn groes i gyngor proffesiynol neu dechnegol heb fod sail gynllunio resymol dros wneud hynny);
(c) Gwrthod caniatâd ar y sail ei bod yn amlwg y gellid ymdrin ag ef drwy amod, pan gesglir y byddai amodau addas yn galluogi’r datblygiad i fynd yn ei flaen;
(ch) Gweithredu’n groes i, neu beidio â dilyn, cyfraith achos sefydledig;
(d) Gwrthod neu wrthwynebu elfennau penodol o gynllun y mae Gweinidogion Cymru neu Arolygydd Cynllunio eisoes wedi nodi neu benderfynu eu bod yn dderbyniol;
(dd) Peidio â phennu neu ddarparu safbwynt ar achosion tebyg mewn modd cyson, pan na fu newid o bwys i’r amgylchiadau;
(e) Methu â rhoi caniatâd pellach, neu gefnogi caniatâd pellach i gynllun sy’n destun caniatâd sy’n bodoli neu sydd wedi darfod yn ddiweddar, pan na fu newid o bwys i’r amgylchiadau;
(f) Gwrthod cymeradwyo neu gefnogi materion a gedwir yn ôl pan fo gwrthwynebiadau yn ymwneud â materion y dylid fod wedi’u hystyried yn y cyfnod amlinellu;
(ff) Gorfodi amod nad yw’n cydymffurfio â’r profion a nodir yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu;

(g) Pan fo diffyg cydweithredu o ran unrhyw ymrwymiad cynllunio;
(ng) Canlyn ymrwymiadau cynllunio afresymol (h.y. cytundebau adran 106) mewn cysylltiad â rhoi caniatâd cynllunio pan na ellir ei gyfiawnhau ac nad yw'n cyd-fynd â'r gyfraith neu bolisi perthnasol;
(h) Pan ellid fod wedi osgoi apêl gorfodi o ganlyniad i ymchwiliad amhriodol neu gyfathrebu annigonol ar ran yr awdurdod cynllunio lleol; a/neu
(i) Gwrthod cynnig gwasanaethau cyn gwneud cais, neu ddarparu gwybodaeth y gofynnir yn rhesymol amdani, pan fo'n debygol y byddai dull mwy defnyddiol wedi gallu osgoi apêl neu leihau'r materion i'w hystyried yn rhan o apêl neu gais (megis methiant awdurdod cynllunio lleol i ddarparu gwybodaeth megis hanes y safle a chyfyngiadau pan allai dealltwriaeth o'r wybodaeth honno fod wedi arwain at osgoi apêl).

**Partïon cysylltiedig (gan gynnwys ymgyngoreion statudol):**

3.12 Mae partïon cysylltiedig ac ymgyngoreion statudol yn chwarae rhan bwysig yn y system gynllunio. Pan fo'r naill neu'r llall yn barti i achos a benderfynir gan Weinidogion Cymru, neu Arolygydd Cynllunio sy'n gweithredu ar eu rhan, gellid dyfarnu costau o'u plaid neu yn eu herbyn. Yn unol â hyn, mae disgwyliad clir y byddant yn ymddwyn yn rhesymol. Cyflwynir dyfarniad costau o blaid neu yn erbyn partïon cysylltiedig (gan gynnwys ymgyngoreion statudol) dan amgylchiadau eithriadol yn unig.

3.13 Fel rheol, ni fydd costau yn cael eu dyfarnu i bartïon â buddiant ac ymgyngoreion statudol, nac yn eu herbyn, pan fo ymddygiad afresymol gan un o'r prif bartïon (yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol) yn ymwneud â rhinweddau'r achos. Fodd bynnag, pan fo'r ymddygiad afresymol sy'n ymwneud â materion gweithdrefnol yn arwain at dreuliau diangen neu wastraffus, gellid dyfarnu costau i bartïon â buddiant ac ymgyngoreion statudol, neu yn eu herbyn. Er enghraifft, pan fo ymddygiad afresymol yn arwain at ohirio'r achos yn ddiangen. Mae enghreifftiau o ymddygiad afresymol yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

**Gweithdrefnol:**
(a) Celu tystiolaeth berthnasol yn fwriadol naill ai yn ystod y cam gwneud cais cynllunio neu mewn apêl ddilynol neu broses galw i mewn;
(b) Darparu gwybodaeth neu dystiolaeth gan wybod ei bod yn anghywir neu'n anwir;
(c) Cyflwyno'r wybodaeth berthnasol dim ond pan ofynnir amdani yn yr achos, ond peidio â'i chyflwyno yn eu hymateb i'r cais cynllunio (pan fo'n berthnasol);
(ch) Oedi neu wrthod cydweithredu wrth setlo ffeithiau y cytunwyd arnynt, neu ddarparu gwybodaeth berthnasol, sy'n arwain at oedi neu ohirio'r achos yn ddiangen;
(d) Oedi neu wrthod darparu gwybodaeth y gofynnir amdani gan Weinidogion Cymru neu Arolygydd Cynllunio;
(dd) Cyflwyno tystiolaeth newydd / sylweddol neu wybodaeth berthnasol yn hwyr yn yr achos pan fo'n eglur y gellid fod wedi'i chyflwyno yn gynharach yn y broses neu wrth wneud cais;
(e) Peidio â darparu cyngor cyson, pan na fu unrhyw newid o bwys i'r amgylchiadau;
(f) Methu â chydymffurfio â therfynau amser statudol neu ofynion gweithdrefnol ar gyfer achos; a/neu

(ff) Methu â bod yn bresennol (neu gael cynrychiolaeth), heb reswm da, mewn ymweliad â safle, gwrandawiad neu ymholiad pan fo angen.

3.14 Gellid dyfarnu costau yn erbyn ymgyngoreion statudol neu bartïon â buddiant os ydynt yn ymddwyn yn afresymol o ran sylwedd y mater sy'n destun yr apêl neu'r cais. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

**Sylweddol:**

(a) Gwrthod ar sail tystiolaeth heb sylwedd a gyflwynwyd gan barti â buddiant neu ymgynghorai statudol;
(b) Diffyg cydweithredu o ran unrhyw ymrwymiad cynllunio; a/neu
(c) Tynnu yn ôl dystiolaeth sy'n sail i'r rheswm dros wrthod, pan na fu unrhyw newid o bwys i'r amgylchiadau.

## 4.0 Costau o ran prynu gorfodol a gorchmynion tebyg

4.1 Mae Adran 322C (Costau: Cymru) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn berthnasol i unrhyw gais, apêl neu atgyfeiriad i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, p'un a yw'n cael ei ystyried trwy ymholiad, gwrandawiad neu sylwadau ysgrifenedig. Yn hyn o beth, mae adran 322C yn berthnasol i achos sy'n cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r rhai a nodir ym mharagraff 4.4 isod. Mae darpariaethau tebyg wedi'u hailddatgan yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.

4.2 Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw adran 322C yn berthnasol i gais, apêl neu atgyfeiriad a wnaed i Weinidogion Cymru cyn 1 Mawrth 2016[14].

### Gorchmynion tebyg i orchmynion prynu gorfodol

4.3 Fel rheol, ystyrir bod gorchymyn neu gynnig yn debyg i orchymyn prynu gorfodol os, drwy ei wneud neu ei gadarnhau, y tynnir oddi ar y gwrthwynebwr rywfaint o'r hawl neu'r buddiant mewn tir y mae'r statud yn rhoi hawl iddo i iawndal ar ei gyfer.

4.4 Y gorchmynion sy'n debyg i orchmynion prynu gorfodol yw:

- Gorchmynion i ddirymu neu addasu:
    a. Caniatâd cynllunio[15];
    b. Caniatâd adeilad rhestredig[16];
    c. Caniatâd sylweddau peryglus[17];
    ch. Parhad caniatâd sylweddau peryglus ar newid rheolaeth tir[18]; neu
    d. Cydsyniad datganedig ar gyfer hysbysebion[19];

[14] Mae Erthyglau 2(b), 4, 16 a 17 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 Gorchymyn (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2016 yn darparu gwybodaeth fanwl am y gorchymyn cychwyn a'r darpariaethau trosiannol sy'n gysylltiedig ag adran 322C.
[15] A.97 ac A.98 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
[16] A.107 ac Atodlen 8 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023.
[17] A.14 ac A.15 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.
[18] A.17(1) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990
[19] Rheoliad 16 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992

- Gorchmynion dirwyn defnydd i ben, neu addasu neu gael gwared ar adeiladau neu waith[20]:
  a. Yn galw am ddirwyn defnydd tir i ben (gan gynnwys cloddio a gweithio mwynau), neu orfodi amodau ar barhau â defnydd tir;
  b. Yn galw am gael gwared ar adeiladau neu waith neu eu haddasu;
  c. Yn galw am gael gwared ar safle neu beirianwaith neu ei addasu i gloddio a gweithio mwynau;
  ch. Gwahardd ailddechrau cloddio a gweithio mwynau; neu
  d. Yn galw am gymryd camau i ddiogelu'r amgylchedd, ar ôl atal cloddio a gweithio mwynau.

**O dan rai amgylchiadau mae darpariaethau costau yn adran 250 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn berthnasol i achosion sy'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i:** Ymholiadau a gynhelir yn unol â Deddf Caffael Tir 1981; a deiseb ynglŷn â chaffael tir gorfodol ar ran cynghorau tref neu gymuned[21].

**Dyfarnu costau ar gyfer prynu gorfodol a gorchmynion tebyg**

4.5 Mae gwahaniaeth rhwng achosion pan fo apelyddion yn dangos blaengarwcg, megis wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio neu ymgymryd â datblygiad yn honedig heb ganiatâd, ac achosion pan fo gwrthwynebwyr yn amddiffyn eu hawliau neu'n diogelu eu buddiannau. Mae gorchmynion prynu gorfodol a gorchmynion tebyg yn ceisio tynnu ymaith hawliau neu fuddiant parti mewn tir.

4.6 Os yw gwrthwynebydd statudol i orchmynion prynu gorfodol a gorchmynion tebyg yn llwyddiannus, bydd dyfarniad costau yn cael ei gyflwyno o'i blaid, oni fydd rhesymau eithriadol dros beidio â gwneud hynny. Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y dyfarniad i'r gwrthwynebydd (neu'r hawlydd) yn erbyn yr awdurdod a gyflwynodd y gorchymyn. Ni fydd dyfarniad yn erbyn yr awdurdod, dan yr amgylchiadau hyn, yn awgrymu eu bod yn ymddwyn yn afresymol.

4.7 Pan wneir gorchymyn am ddyfarnu costau ar sail llwyddiant, mae'n rhaid i bob un o'r amodau canlynol fod yn gymwys:

(a) Mae'n rhaid i'r hawlydd fod wedi gwrthwynebu'r gorchymyn yn ffurfiol;

(b) Mae'n rhaid i'r hawlydd fod wedi naill ai:

- Ymddangos (neu gael cynrychiolaeth) mewn gwrandawiad neu ymholiad pan gynhaliwyd un; neu
- Gyflwyno sylwadau ysgrifenedig y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn rhan o'r weithdrefn ysgrifenedig, pan ddefnyddiwyd y weithdrefn ysgrifenedig ac na chafodd yr hawlydd gyfle i ymddangos;

(c) Mae'n rhaid i'r hawlydd fod yn wrthwynebwr statudol; ac

(ch) Mae'n rhaid i wrthwynebiad yr hawlydd fod wedi'i gynnal gan benderfyniad Gweinidogion Cymru (neu'r awdurdod cadarnhau) i wrthod neu gadarnhau'r gorchymyn neu i eithrio rhan o eiddo'r hawlydd, neu'r eiddo cyfan, o'r gorchymyn.

[20] A.102, A.103 ac Atodlen 9 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

[21] A.125 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, a ddisodlwyd gan A.43 o Ddeddf Tai a Chynllunio 1986.

**Gweithdrefnau dyfarnu costau ar gyfer gorchmynion analogaidd a phrynu gorfodol**

4.8 Nid yw'n ofynnol i hawlydd wneud cais am gostau mewn gwrandawiad neu ymholiad. Bydd Gweinidogion Cymru (neu'r awdurdod cadarnhau) yn rhoi gwybod i bob parti dan sylw yn ysgrifenedig ac yn eu gwahodd i gyflwyno cais am ddyfarniad costau ar sail eu gwrthwynebiad llwyddiannus. Pan ddyfernir costau i barti, dylid cynnwys manylion am eu costau i'r parti arall a cheisio cyrraedd cytundeb ar y swm. Pan ddyfernir costau yn erbyn parti ac ni all y partïon gytuno ar swm, caiff y parti llwyddiannus wneud cais i Swyddfa Gostau yr Uwchlys.

**Ymddygiad afresymol**

4.9 Mae rhai amgylchiadau pan ellid dyfarnu costau i wrthwynebydd aflwyddiannus, neu i'r awdurdod lleol a wnaeth y gorchymyn, o ganlyniad i ymddygiad afresymol i unrhyw barti (sy'n cynnwys partïon â buddiant). Mae'n debygol y bydd yr amgylchiadau hyn yn ymwneud â materion gweithdrefnol, er enghraifft, methu â chyflwyno sail ar gyfer gwrthwynebu neu gyflwyno datganiad achos, neu pan fo camau yn arwain at dreuliau diangen, megis ymestyn achos yn ddiangen.

4.10 Pan fo gwrthwynebydd aflwyddiannus yn ystyried bod parti arall wedi ymddwyn yn afresymol, caiff wneud cais am gostau ar y sail hon trwy gyflwyno cais am gostau. Fodd bynnag, caiff Arolygwyr Cynllunio hefyd gychwyn dyfarniad costau os ydynt o'r farn bod ymddygiad afresymol wedi digwydd ac nad oes cais wedi'i gyflwyno. Bydd yr Arolygydd Cynllunio yn argymell i Weinidogion Cymru (neu'r awdurdod cadarnhau) wneud penderfyniad ynghylch dyfarnu costau neu beidio. Mae'r weithdrefn dyfarnu costau ar gyfer gwrthwynebydd aflwyddiannus yn dilyn y broses a nodir yn Atodlen A.

4.11 Ni cheir dyfarnu costau ar sail llwyddiant ac ymddygiad afresymol. Fodd bynnag, gellid lleihau dyfarniad i wrthwynebydd llwyddiannus os ydynt wedi ymddwyn yn afresymol ac achosi treuliau diangen yn yr achos, er enghraifft, os yw eu hymddygiad wedi arwain at ohirio nad oedd ei angen.

**Gwrthwynebwyr rhannol lwyddiannus**

4.12 Pan fo gwrthwynebydd statudol yn rhannol lwyddiannus yn gwrthwynebu gorchymyn prynu gorfodol, fel rheol bydd ganddo hawl i ddyfarniad costau rhannol. Er enghraifft, pan gadarnheir gorchymyn prynu ond mae'n eithrio rhan o dir y gwrthwynebydd.

**Amgylchiadau pan fo gorchymyn prynu gorfodol neu orchymyn tebyg yn gysylltiedig â chais arall**

4.13 Mewn rhai amgylchiadau, cynhelir ymholiadau ar y cyd i ddau gynnig neu fwy, a dim ond un o'r rhain yn orchymyn prynu gorfodol (neu'n orchymyn tebyg); er enghraifft, cais am ganiatâd cynllunio a gorchymyn caffaeliad tir gorfodol yn rhan o'r cais. Pan fo gwrthwynebydd, sydd hefyd yn cyflwyno sylwadau ynglŷn â chais cysylltiedig, ac mae'n llwyddiannus yn gwrthwynebu'r gorchymyn prynu gorfodol (ac yn bodloni meini prawf (a)-(ch) ym mharagraff 4.4 o'r canllawiau hyn), caiff y

gwrthwynebydd hawlio dyfarniad o ran y gorchymyn prynu gorfodol neu orchymyn tebyg.

4.14 Nid chaiff gwrthwynebydd ei eithrio rhag dyfarniad costau sy’n ymwneud â’r mater arall ar y sail bod yr awdurdod wedi ymddwyn yn afresymol.

# Atodlen A – Proses dyfarnu costau

**Gweithdrefn gyffredinol**

A1 Pan fwriedir gwneud cais am ddyfarniad costau, mae'n rhaid i bob parti wneud hynny cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn berthnasol i'r holl achosion yr ymdrinnir â nhw drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymholiadau neu achosion cyfunol.

A2 Yn achos apeliadau, mae'r ffurflen apêl yn gyfle i apelyddion gyflwyno cais am ddyfarniad costau pan fo'n gais am ddyfarniad sylweddol. Mae'n annhebygol y bydd cais am ddyfarniad sylweddol mewn achos o alw i mewn, ond os digwydd hynny dylid cyflwyno'r cais am gostau o fewn 4 wythnos i'r hysbysiad atgyfeirio gan Weinidogion Cymru (sy'n gyfoes â'r terfyn amser i gyflwyno datganiad achos llawn, pan fo'r apelydd yn dewis gwneud hynny).

A3 Pan fo awdurdod cynllunio lleol neu drydydd parti yn bwriadu gwneud cais am gostau ar sail sylweddol, dylid gwneud hynny yn ysgrifenedig o fewn 4 wythnos i ddyddiad dechrau'r apêl neu'r broses galw i mewn (sy'n gyfoes â'r terfyn amser i gyflwyno datganiad achos llawn, pan fo'r awdurdod cynllunio lleol neu'r trydydd parti yn dewis gwneud hynny).

A4 Bydd y cais am gostau yn cynnwys datganiad sy'n esbonio'n glir pam eu bod o'r farn bod ymddygiad afresymol wedi digwydd a sut mae hyn wedi achosi treuliau diangen neu wastraffus, gan roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn.

A5 Bydd partïon sy'n destun cais am ddyfarniad costau yn eu herbyn yn cael cyfle i ymateb i'r cais hwnnw. Mae cyfle i'r awdurdod cynllunio lleol a phartïon eraill ymateb i'r apêl neu'r broses galw i mewn o fewn 4 wythnos i'r dyddiad dechrau. Pan wneir cais am gostau gan yr ymgeisydd neu'r apelydd, mae'n rhaid i'r sylwadau mewn ymateb i'r cais ddod i law ar y dyddiad cau am sylwadau 4 wythnos yn ddiweddarach fan bellaf. Pan wneir cais gan yr awdurdod cynllunio lleol neu bartïon eraill, mae'r cam 6 wythnos yn rhoi'r un cyfle i bartïon sy'n destun cais am gostau yn eu herbyn ymateb iddo.

A6 Ar ôl i'r sylwadau hyn ddod i law, bydd yr Arolygydd Cynllunio, ar ran Gweinidogion Cymru, naill ai yn penderfynu nad oes angen rhagor o sylwadau, neu fod angen i bartïon gyflwyno rhagor o ymatebion o fewn amser a nodir gan yr Arolygydd, hyd nes y bydd digon o wybodaeth gan yr Arolygydd i benderfynu ar y cais am gostau. Pan fydd penderfyniad wedi'i gyflwyno ar yr apêl neu'r broses galw i mewn, bydd yr Arolygydd Cynllunio hefyd yn cyflwyno adroddiad ar wahân yn penderfynu ar y cais am ddyfarniad costau.

A7 Er mai cyflwyno cais am ddyfarniad costau yn gynnar sydd orau, cydnabyddir y bydd rhai amgylchiadau yn golygu y caiff parti wneud cais am ddyfarniad ar ôl profi'r dystiolaeth mewn gwrandawiad neu ymholiad. Pan wneir cais o'r fath, mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais am gostau roi rheswm da dros beidio â gwneud cais yn unol â'r terfynau amser a nodir ym mharagraff A5.

### Ceisiadau sy’n codi o ymddygiad afresymol yn ystod achos

A8 Er yr anogir pob parti i gyflwyno unrhyw gais am gostau cyn gynted â phosibl yn ystod yr achos, gall fod adegau pan fydd ymddygiad afresymol yn dod i’r amlwg yn ystod y broses archwilio a phenderfynu ar yr apêl, y broses galw i mewn neu’r cais uniongyrchol gan Weinidogion Cymru (megis datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol). Byddai ceisiadau o’r fath yn cael eu cyflwyno ar sail weithdrefnol. Mewn amgylchiadau o’r fath, caiff cais am ddyfarniad costau ei ystyried.

A9 Gallai apêl neu gais ddilyn un neu fwy o dair gweithdrefn wahanol.

### Sylwadau ysgrifenedig

A10 Ar gyfer achos yr ymdrinnir ag ef drwy sylwadau ysgrifenedig yn unig, dylid gwneud cais am gostau ar sail weithdrefnol cyn gynted â phosibl ar ôl i’r ymddygiad afresymol honedig ddigwydd. Mae’n rhaid i’r cais ysgrifenedig gynnwys datganiad sy’n mynegi pam nad oedd modd gwneud cais ar yr un pryd â’r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiad achos llawn, neu gyn hynny. Mae’n bosibl na fydd PEDW yn ystyried cais am gostau pan na roddir rheswm da.

### Gwrandawiadau ac Ymholiadau

A11 Ar gyfer achos yr ymdrinnir ag ef drwy wrandawiad, ymholiad neu achos cyfunol, disgwylir hefyd gwneud cais am gostau cyn gynted â phosibl ac yn ysgrifenedig. Byddai hyn yn hwyluso’r achos. Fodd bynnag, bydd yr Arolygydd Cynllunio yn rhoi cyfle olaf i bartïon wneud cais am gostau ar lafar neu yn ysgrifenedig cyn diwedd y gwrandawiad neu ymholiad. Os caniateir cais ar lafar, bydd yr Arolygydd yn rhoi cyfle i’r partïon y gwneir cais am gostau yn eu herbyn ymateb ar lafar. Ond, mewn rhai amgylchiadau, ceir gwneud hyn yn ysgrifenedig o fewn cyfnod a bennir gan yr Arolygydd.

A12 Ar ôl i’r sylwadau hyn ddod i law, bydd yr Arolygydd Cynllunio naill ai yn penderfynu nad oes angen rhagor o sylwadau, neu fod angen i bartïon gyflwyno rhagor o ymateb o fewn terfyn amser a bennir ganddynt (fel arfer 2 wythnos), hyd nes y bydd digon o wybodaeth gan yr Arolygydd i benderfynu ar y cais am gostau. Pan gyhoeddir y penderfyniad ar yr apêl neu’r broses galw i mewn, bydd yr Arolygydd Cynllunio hefyd yn cyflwyno adroddiad ar wahân gydag argymhelliad ynghylch a ddylid dyfarnu costau neu beidio.

### A gychwynnir gan Arolygwyr

A13 Gall fod adegau pan nad yw’r un parti wedi gwneud cais am gostau ond mae’r Arolygydd wedi sylwi ar ymddygiad afresymol clir sydd, yn nhyb yr Arolygydd, wedi arwain at dreuliau diangen neu wastraffus i bartïon sy’n galw am ddyfarnu costau i bartïon neu i PEDW. Mewn amgylchiadau o’r fath, bydd yr Arolygydd Cynllunio, ar ran Gweinidogion Cymru, yn cychwyn ar broses dyfarnu costau. Gallai cychwyn yn y modd hwn ddigwydd ar ôl y cyfle ffurfiol olaf sydd gan bartïon yn ystod achos i wneud cais am gostau. Bydd hyn, yn nodweddiadol, ar ôl i wrandawiad neu ymholiad ddod i ben neu pan fo’r holl derfynau amser am sylwadau fynd heibio mewn achosion yr ymdrinnir â nhw drwy sylwadau ysgrifenedig yn unig.

A14 Cydnabyddir y gallai Arolygydd Cynllunio sy'n cychwyn ar broses dyfarnu costau awgrymu bod penderfyniad y dyfarniad i bartïon eraill eisoes wedi'i wneud, yn enwedig o ystyried y gallai'r dyfarniad costau fod o blaid Gweinidogion Cymru. I sicrhau tryloywder, Llywodraeth Cymru fydd yn ystyried dyfarniadau o'r fath, sy'n annibynnol ar y broses a thestun yr hawliad am gostau.

A15 Pan gychwynnir ar y broses hon, Llywodraeth Cymru fydd yn ymdrin â'r dyfarniad costau yn y modd a amlinellir ym mharagraffau A16 - A19 isod.

**Gweithdrefn yn sgil tynnu apêl neu gais yn ôl**

A16 Mae mathau penodol o ymddygiad ac amgylchiadau penodol a all arwain at gais am gostau yn sgil tynnu apêl, proses galw i mewn neu gais uniongyrchol yn ôl. Ar y pwynt hwn, bydd PEDW yn ildio pob awdurdodaeth yn yr achos. Mewn amgylchiadau o'r fath, Llywodraeth Cymru fydd yn ymdrin â'r cais am ddyfarniad costau. Llywodraeth Cymru fydd hefyd yn penderfynu ar broses dyfarnu costau a gychwynnir gan PEDW, gan gynnwys y rhai sydd ar gyfer eu costau eu hunain.

A17 Pan wneir cais am gostau gan yr apelydd neu'r ymgeisydd, mae'n rhaid ei gyflwyno bedair wythnos fan bellaf ar ôl dyddiad yr hysbysiad o dynnu'r apêl neu'r cais yn ôl. Mae'n rhaid i'r cais ysgrifenedig gynnwys datganiad sy'n nodi pam nad oedd modd cyflwyno cais yn ystod yr apêl neu'r cais. Os daw cais i law ar ôl y cyfnod hwn o bedair wythnos, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddangos bod ganddo reswm da dros beidio â gwneud cais yn gynt.

A18 Ar ôl cael cais am ddyfarniad neu gychwyn proses ddyfarnu, bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd sylwadau gan y parti/partïon y gwneir cais am gostau ganddynt. Bydd partïon fel arfer yn cael 2 wythnos i ymateb i geisiadau neu gychwyn proses i ddyfarnu costau.

A19 Ar ôl i'r sylwadau hyn ddod i law, bydd Llywodraeth Cymru naill ai yn penderfynu nad oes angen rhagor o sylwadau, neu fod angen i bartïon gyflwyno rhagor o ymateb erbyn dyddiad penodedig hyd nes y bydd digon o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i benderfynu ar y cais am gostau. Fel rheol, gwneir penderfyniad ar y dyfarniad o fewn 12 wythnos i'r holl sylwadau gofynnol ddod i law. Cyflwynir y dyfarniad i'r hawlydd ac anfonir copi i'r partïon y dyfernir y costau yn eu herbyn.

**Proses nodweddiadol o geisiadau am gostau a gychwynnir ar sail sylweddol**

| Cychwyn y broses gwneud cais am gostau gan: | Apelydd neu Ymgeisydd | Awdurdodau cynllunio lleol neu bartïon â buddiant | PEDW a Gweinidogion Cymru |
|---|---|---|---|
| **Pryd i gyflwyno cais:** | Adeg yr hysbysiad apêl neu, yn achos proses galw i mewn, o fewn 4 wythnos i'r hysbysiad atgyfeirio.<br>Pan fo sail sylweddol yn codi yn ystod achos llafar; cyn diwedd yr achos. | O fewn 4 wythnos i ddyddiad dechrau'r apêl neu'r broses galw i mewn.<br>Pan fo sail sylweddol yn codi yn ystod achos llafar; cyn diwedd yr achos. | Ar ôl i'r achos ddirwyn i ben. |
| **Sylwadau gan ymatebwyr:** | O fewn 4 wythnos i ddyddiad dechrau'r apêl neu'r broses galw i mewn.<br>Pan fo sail sylweddol yn codi yn ystod achos llafar; cyn diwedd yr achos; o fewn cyfnod a bennir gan yr Arolygydd. | O fewn 6 wythnos i'r dyddiad dechrau.<br>Pan fo sail sylweddol yn codi yn ystod achos llafar; cyn diwedd yr achos; o fewn cyfnod a bennir gan yr Arolygydd. | O fewn amserlen a bennir gan Weinidogion Cymru (fel arfer o fewn 2 wythnos). |
| **Ymatebion neu sylwadau eraill:** | O fewn cyfnod a bennir gan yr Arolygydd. | | O fewn cyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru. |
| **Awdurdod penderfynu:** | Pan wneir cais cyn diwedd yr achos; PEDW. Pan wneir cais ar ôl diwedd yr achos; Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. | | Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. |

**Proses nodweddiadol o geisiadau am gostau a gychwynnir ar sail weithdrefnol**

| **Cychwyn y broses gwneud cais am gostau gan:** | **Apelydd neu Ymgeisydd** | **Awdurdodau cynllunio lleol neu bartïon cysylltiedig** | **PEDW a Gweinidogion Cymru** |
|---|---|---|---|
| **Pryd i gyflwyno cais:** | Cyn gynted â phosibl yn dilyn achos honedig o ymddygiad afresymol yn arwain at dreuliau diangen neu wastraffus. | | Ar ôl i'r achos ddirwyn i ben. |
| **Sylwadau gan ymatebwyr:** | O fewn cyfnod a bennir gan yr Arolygydd (fel arfer o fewn 2 wythnos). | | O fewn amserlen a bennir gan Weinidogion Cymru (fel arfer o fewn 2 wythnos). |
| **Ymatebion neu sylwadau eraill:** | O fewn cyfnod a bennir gan yr Arolygydd. | | O fewn cyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru |
| **Awdurdod penderfynu:** | Pan wneir cais cyn diwedd yr achos; PEDW. Pan wneir cais ar ôl diwedd yr achos; Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. | | Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. |

# Atodlen B – Ble i gyflwyno cais

**Ceisiadau am gostau yn ystod achosion**

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

PEDW.GwaithAchos@llyw.cymru

**Ceisiadau am gostau yn sgil tynnu yn ôl o achosion neu derfyn achosion**

Cangen Penderfyniadau – Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

planning.directorate@llyw.cymru